# Adroddiad Grwp Project BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Project** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Tlodi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect (Yr enwau mewn print trwm oedd yn bresennol yn y cyfarfod)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Elaine Evans, Llyr Hughes, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins, Rob Starr, Carys Owens, Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, **Catrin George**, Catrin Cond, **Alison Heal**, Dr Sarah Groves Phillips, **Carwyn Young,** Connor Cook, **Bethan James**, Cathryn Morgan, **Rob Star, Emily Edwards, Rhiannon John,** Tîm Partneriaethau: Sara Dafydd, **Lynne Walters**, **Anwen Thomas, Teleri Elias** | Tai Wales & West<br>CAVO | **Rhiannon Ling,** Elizabeth Morgan<br>**Hazel Lloyd Lubran,** Chesca Ross |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Vicki Howell-Williams, **Sue John**, Terri-Ann Patrick, Jackson Reynolds, Megan Harris, **Jan Batty** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | William Bowen, Wayne Thomas, Ritchie Felton | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies,Peter Frost, Sarah Coakham |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen**, Sue Thomas** | Menter a Busnes | **Ann Owen** |
| CAB Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris, **Sue Lewis** | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Roxanne Treacy** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROJECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 23/10/23**

**11.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**

Caitlin Theodorou, Cyngor Sir Ceredigion (CSC)
Y Cynghorydd Elaine Evans, CSC
Carys Owens, CSC
Martin Gillard, CSC
Cerys Purches Phillips, CSC
Richard Felton, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chesca Ross, CAVO
Timothy Bray, CSC

**11.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol – 18/4/23**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18fed Ebrill a chytunwyd bod materion yn codi o'r trafodaethau naill ai wedi cael sylw neu wedi cael eu hadlewyrchu yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw ac y byddant yn cael eu cwblhau.

GWEITHRED: Carys Huntly i anfon y bwletin blaenorol at Sara Dafydd i'w gylchredeg gydag is-grŵp Aberteifi.

GWEITHRED: Cathryn Morgan i drafod gyda Rhiannon Ling i sicrhau bod y digwyddiadau'n gynhwysol â phosibl.

GWEITHRED: Hazel Lloyd-Lubran a Sara Dafydd i archwilio grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n canolbwyntio ar y broses ymgysylltu.

**11.3 Penodi Cadeirydd**

Hysbysodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) y grŵp, wedi iddi gael ei phenodi fel Cadeirydd newydd BGC Ceredigion y byddai'n edrych at gamu i lawr o Gadeirio'r fforwm hwn. Byddai hyn yn cynorthwyo'r ddwy rôl, a gofynnodd HLL i'r Aelodau i ystyried y mater hwn ymhellach cyn y cyfarfod grŵp peilot nesaf. Er hyn, yn yr interim, cytunodd HLL i barhau yn y rôl a gohirio ei hymadawiad tra bod y gweithdai cyflawni a gweithredu yn cael eu cyflawni gan y tîm BGC. Byddai hyn yn darparu cyfle amserol i benodi cadeirydd newydd.

**11.4 Penodi Is-gadeirydd**

Cadarnhaodd HLL ei bod hefyd yn gobeithio penodi Is-gadeirydd yn y cyfarfod nesaf.

**11.5 Eitem Sefydlog – Diweddariad am y Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 – Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni BGC – gan gynnwys adborth cychwynnol gan Weithdai'r BGC.**

Darparwyd diweddariad byr ar ran Tim Bray, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil yn seiliedig ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer y BGC, i gynnal gweithdai Gwrthrychol gyda phartneriaid.

Mae'r gweithdai wedi bod yn ffocysu ar y pedwar amcan o fewn y Cynllun Llesiant ac wedi cael eu tanategu gan y thema Tlodi/Caledi trawsbynciol. Erbyn hyn, mae dau weithdy wedi'u cynnal gyda phresenoldeb da o tua 20 ymhob un. Cadeiriwyd y gweithdy cyntaf gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth i ystyried sut gallwn ni gyd-weithio i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac mewn cysylltiad, hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cadeiriwyd yr ail weithdy gan Dr Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan ffocysu ar sut y gallwn gyd-weithio i leihau anghydraddoldeb o fewn ein cymunedau a defnyddio datrysiadau cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol. Mae dau sesiwn gweithdy ar y gweill. Un ar y 23.10.23 i drafod Amcan 3 a fydd yn ffocysu ar sut y gallwn ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella asedau naturiol, wedi'i Gadeirio gan Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru; ac ar ddydd Llun, 6 Tachwedd lle bydd gweithdy i drafod Amcan 1 ar sut y gallwn gyd-weithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fud di bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion, a fydd yn cael ei Gadeirio gan Gyngor Sir Ceredigion.

Mae taclo caledi yn flaenoriaeth ymhob un o'r 4 gweithdy fel thema drawsbynciol, ac mae pob gweithdy wedi ffocysu ar bob tasg a chydnabod blaenoriaeth o fewn y cynllun. Trwy raglen ar-lein gydweithredol Menti, gofynnwyd i bawb sy'n cymryd rhan i ymgysylltu yn rhyngweithiol a rhoi mewnbwn ar flaenoriaethu darpariaeth a gweithredu. Mae Menti yn darparu galluoedd i gwestiynu cyfranogwyr ac i ddadansoddi ac arsylwi ar yr adborth a gafwyd. Ar ôl cwblhau'r holl weithdai, bydd yr holl adborth yn cael eu hystyried, a bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'r BGC i'w ystyried yn ei gyfarfod nesaf a gynhelir ddydd Llun 4 Rhagfyr 2023.

DRAFT

O safbwynt gweithredu ar gyfer y Cynllun Lles Lleol, bydd y BGC yn ystyried lle mae pwyllgorau llywio neu grwpiau eraill i gyflawni camau gweithredu a sut y gall y BGC sicrhau bod y mecanweithiau adrodd ar waith i gasglu'r holl wybodaeth.

Yn dilyn y diweddariad hwn, hysbysodd HLL y grŵp hwn y byddant yn ystyried ac yn trafod yr adroddiad yn eu cyfarfod nesaf sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd ar gyfer y 18fed o Ionawr 2024.

**11.6 Cyflwyniad: Proffil clwstwr Gofal Sylfaenol ar gyfer De Ceredigion, Jan Batty, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda.**

Yn dilyn absenoldeb, hysbysodd Jan Batty (JB) y grŵp y bydd hi'n cyflwyno'r cyflwyniad hwn yn llawn yn y cyfarfod nesaf.

Er hyn, yn yr interim, nodwyd ambell bwynt heddiw. Nododd JB fod Dawn Davies o'r tîm, sy'n ymwneud yn bennaf â gofal sylfaenol, wedi creu'r adroddiad sydd wedi'i ddosbarthu i holl aelodau'r grŵp prosiect. Mae'r adroddiad yn cyfuno gwybodaeth am iechyd ar gyfer clwstwr De Ceredigion, ac yn darparu dangosyddion allweddol i'w hystyried yn y dyfodol. Os oes gan yr aelodau unrhyw adborth yr hoffent eu trafod cyn y cyfarfod yr wythnos nesaf, gofynnwyd iddynt gysylltu â JB yn uniongyrchol.

Wrth drafod holodd HLL, gan fod llawer o sefydliadau'n tueddu i gwmpasu ardaloedd mwy, a fyddai cysylltiadau â chanolbarth a gogledd Ceredigion hefyd o werth posibl i aelodau drwy'r cyflwyniad hwn. Gallai hyn fod yn fater i'w ystyried o'r BGC.

**Gweithred** – Lynne Walters (LW) i gynnig yr adborth yma yn ran o ymgynghoriad gweithdai'r BGC.

**11.7 Diweddariad o'r Gronfa Ffyniant a phrosiectau i ddatblygu Tref Aberteifi ar y cyd gyda'r Cyngor Tref, Catrin George, Cydlynydd Cymunedau Gwledig Cyngor Sir Ceredigion/Rhiannon John, Swyddog Datblygu Trefi Gwledig**

Ers mis Ebrill, mae Cynnal y Cardi wedi bod yn gweithio ar ddarparu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU yng Ngheredigion. Mae Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU yn biler canolog ar agenda'r Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ac yn elfen arbennig i gefnogi lleoedd ledled y DU.

Mae'n darparu tair blynedd o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol. Mae Rhanbarth Canolbarth Cymru (sef Ceredigion a Phowys) wedi cael £42 miliwn o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2025 gyda £14 miliwn yn cael ei ddyrannu i Geredigion.

Mae'r UKSPF yn cymryd lle'r cyllid Ewropeaidd blaenorol ac mae wedi'i gynllunio i adeiladu balchder yn ei le, grymuso pobl leol a datblygu cymunedau.

Mae dau alwad agored wedi'u gwneud ar gyfer ceisiadau ac mae'r rhain wedi arwain at dderbyn 127 o geisiadau. O'r rhain cymeradwywyd 33 o brosiectau gan y panel asesu.

Mae gan 3 o'r prosiectau cymeradwy hynny ffocws yn Aberteifi ac mae'r rhain yn:

- **Reverb – Area 43**

Mae reverb yn gynllun hyfforddi a chyflogadwyedd, sy’n cael ei gynnig i bobl ifanc sy’n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith o’u grŵp cleient. Mae’r ffocws pennaf yma wedi’i selio ar y rheiny sy’n profi problemau iechyd meddwl, pryder, anabledd neu anfantais.

Mae’r rhaglen yn galluogi pobl ifanc i ennyn sgiliau a phrofiad ymarferol mewn amgylchedd diogel a chefnogol gan gynyddu eu potensial o fewn yr economi ehangach. Mae’r ffocws ar gynyddu eu mynediad i’w cefnogi trwy eu grymuso, i ennill cyflogaeth a gydag amser, gobeithir y bydd yn cynorthwyo busnesau lleol trwy eu helpu i fynd i’r afael a’r prinder gweithwyr presennol.

- **Biwro rhoi Cyngor Ceredigion – Rhwydwaith Gwybodaeth a Chyngor Ceredigion**

Bydd Rhwydwaith Gwybodaeth a Chyngor newydd Ceredigion (CIAN) yn sicrhau nad oes 'drws anghywir' i bobl leol sydd angen help, gwybodaeth, cyngor na chefnogaeth. Bydd system atgyfeirio ddigidol yn caniatáu i gyfranogwyr y Rhwydwaith ddarparu gwasanaethau cofleidiol di-dor, waeth beth fo'r broblem neu lle mae pobl yn ceisio cael cymorth.

- **Antur Cymru - Cymorth Busnes De Ceredigion**

Cwmni cefnogi busnes sydd wedi’i leoli yn Aberteifi a fydd yn cefnogi busnesau cyn-weithredu, cam-cyntaf a busnesau presennol, grymuso unigolion a busnesau trwy ehangu eu sgiliau busnes. Bydd hyfforddiant a chymorth mewn person wedi’i deilwra ac yn cael ei gyflawni yn lleol trwy leoliad penodol o fewn y Dref.

**Multiply**
Daw'r cyfle hwn i ben ar 29 Hydref. Mae cyllideb Multiply ar wahân i'r gyllideb SPF 'Core' sy'n cwmpasu Cymunedau a Lle; Cefnogi busnesau lleol; a Phobl a Sgiliau ac mae'r cyfan yn cynnal refeniw heb unrhyw elfen gyfalaf.
Ei nod yw gwella sgiliau rhifedd trwy diwtora personol am ddim, hyfforddiant digidol, a chyrsiau hyblyg a'r gynulleidfa darged yw oedolion 19 oed a hŷn nad oes ganddynt TGAU Gradd C neu uwch (neu gyfwerth) mewn mathemateg.

**Prosiectau Trawsnewid Trefi yng Ngheredigion**
Mae'r Grant Creu Lleoliad Trawsnewid Trefi yn cynnig cefnogaeth ar gyfer ystod eang o brosiectau, o ddatblygiadau isadeiledd gwyrdd i welliannau masnachol a phreswyl mewnol ac allanol i berchnogion busnes.

**Gweithred –** HLL i gofyn yn nghyfarfod nesaf y grwp llywio am manylion am y prosiectau a'r adnoddau sydd wedi ei fuddsoddi gan gronfa ffyniant Cynnal y Cardi yng Ceredigion. Hefyd, ail-edrych ar y data y mae Rob Starr a'r tîm wedi'i gasglu a pha effaith sydd angen ei thargedu. Cytunwyd hefyd bod angen ystyried y prosiectau lluosi sydd wedi'u hanelu at Aberteifi a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid SPF.

Mae Cynnal y Cardi wedi lansio 2 gynllun grant, un i gefnogi busnesau lleol ac un ar gyfer cymunedau lleol. Mae'r ddau gyfle yn cau ar 31 Hydref ac mae gan y ddau 2 grant yr un. Rhoddwyd gwybod i bob aelod, os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwneud cais, anfonwch e-bost byr at Gynnal y Cardi ac yna byddant yn gwirio cymhwysedd cyn cyflwyno cais llawn.

Yn y cyfarfod nesaf fe gadarnhaodd CG y bydd ganddyn nhw restr o brosiectau sydd wedi eu cymeradwyo drwy'r cynllun grantiau bach.

**Gweithred** – Gwahodd y Cynghorydd Clive Davies i roi cyflwyniad ar y prosiect data Wi-Fi am ddim yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithred-** Nododd HLL fod Catrin George a'r tîm yn gweithio ar y 33 prosiect Sir gyfan sydd wedi bod yn llwyddiannus ac unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddant yn rhannu manylion gyda'r grŵp.

**11.8 Diweddariad ar Gynllun Rhwydwaith Bwyd Ceredigion -**
***Ann Owen Menter a Busnes***

Mae Ann Owen (AO), Menter a Busnes wedi bod yn y swydd am y mis diwethaf. Maent ar gamau cychwynnol y prosiect rhwydwaith Bwyd.
Mae'r fframwaith gweithredu ar gyfer rhwydweithiau bwyd yn nodi 6 mater allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd i gyflawni newid sylfaenol yn y system fwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Llywodraethu a Strategaeth Bwyd:** Cymryd ymagwedd strategol a chydweithredol tuag at lywodraethu a chynhyrchu bwyd da.
2. **Mudiad Bwyd Da:** Adeiladu ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth bwyd gweithredol a mudiad bwyd da lleol.
3. **Bwyd Iach i Bawb**: Mynd i'r afael â thlodi bwyd, afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet a mynediad at fwyd iach fforddiadwy.
4. **Economi Bwyd Cynaliadwy:** Creu economi fwyd cynaliadwy, bywiog, ffyniannus ac amrywiol.
5. **Arlwyo a Chaffael:** Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi lleol.

DRAFT

6. **Bwyd i'r Blaned:** Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.

Nododd AO eu bod wedi sicrhau cyllid cydweithio, i weithio ar y cyd â sefydliadau eraill fel ysgolion, gerddi cymunedol, byrddau iechyd a banciau bwyd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyllid hwn, mae ganddynt 3 digwyddiad a gynhelir mewn person yn Aberystwyth ar y 7fed o Dachwedd, Llanbedr Pont Steffan ar y 14eg o Dachwedd ac Aberteifi ar y 15fed o Dachwedd. Byddant hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein.

**Gweithred** – AO i anfon manylion y 3 digwyddiad ar gyllid i'r tîm Partneriaeth er mwyn ei gylchredeg.

Mewn trafodaeth cadarnhaodd Alison Heal (AH) y bydd y ddarpariaeth yn parhau eleni a'r flwyddyn nesaf ar grant cymorth rhandiroedd Llywodraeth Cymru. Mae AH wedi bod yn gweithio i geisio rheoleiddio'r sefyllfa yng Nghymdeithas Rhandiroedd Aberteifi ond mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae ganddynt reolwr datblygu asedau newydd Graham Lane sy'n cynorthwyo ond mae materion yn ymwneud â maes ger y rhandiroedd presennol yn parhau. Gofynnodd AH i'r panel, os oedd gan unrhyw un diddordeb i helpu i ddatrys y mater hwn i gysylltu â hi.

Nododd AH fod angen rhestr a gedwir yn manylu ar y galw am randiroedd ledled Ceredigion a fydd yn y pen draw yn profi'r galw am lefydd pellach. Yn anffodus, fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd, nid oes rhestr yn bodoli ac felly mae'n anodd cyfiawnhau a chadarnhau'r galw.

**Gweithred** – AH i gylchredeg neges pan drefnir cyfarfod i ystyried a datrys mater rhandiroedd Aberteifi.

Mewn trafodaeth bellach nodwyd bod cynnydd wedi bod mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â bwyd ar draws y Sir, mae mwy o sefydliadau yn edrych ar fwyd fel elfen o'r hyn maen nhw am ei wneud. Cadarnhaodd AO ei bod yn coladu gwybodaeth ac yn canolbwyntio ymdrechion ar greu cysylltiadau â threfniadaeth y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Nododd HLL eu bod CAVO wedi siarad â'r dietegydd arweiniol yn Hywel Dda sy'n awyddus iawn i weithio gyda'r grwpiau cymunedol hyn i sicrhau eu bod yn siarad am faeth a bwyta'n iach fel rhan o'u llwybr at well lles.

- **Gweithred** – Awgrymodd HLL fod Ann Owen yn mynychu'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr i ddiweddaru fforwm eu prosiectau.
- **Gweithred** – Gwahodd Aled Davies o Gyfoeth Naturiol Cymru i gynghori ac adrodd ar gyllid posib ar gyfer gwahanol brosiectau.

**<u>11.9 Cynllun scopio Canolfan Lles (Ardal Aberteifi)</u>**

***<u>Diweddariad gan Carwyn Young (Rheolwr Canolfannau Lles Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion)</u>***

Rhoddodd Carwyn Young diweddariad cychwynnol yn y cyfarfod blaenorol ar yr hyn maen nhw'n bwriadu ei greu gyda'r ail ganolfan les yng Ngheredigion. Mae trafodaethau gyda grwpiau allweddol bellach wedi digwydd ac mae eu bwriadau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar wella'r cyfleusterau sydd ganddynt yn nhref Aberteifi. Maent ar hyn o bryd ar gam dod ag arbenigedd ychwanegol i mewn i helpu i ddatblygu'r prosiect ac maent wedi derbyn cyllid gan y gronfa gofal rhanbarthol integredig ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb. Mae hyn bellach yn gosod y prosiect ar y rhaglen gwaith cyfalaf ar gyfer y dyfodol.

Maent wedi dod â Chynghrair Hamdden i mewn, ac maent wedi cael y dasg o weithio ar 4 maes:

- Arfarniad Opsiynau Pensaer- materion cynllunio ac ati.
- Datblygu dichonoldeb busnes – edrych ar gyfleusterau presennol yn yr ardal ac ati.
- Cymysgedd o gyfleusterau– cyfleusterau posibl.
- Modelu refeniw – costau.

Maent wedi cynhyrchu dogfennau yn seiliedig ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ac mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau rhanddeiliaid. Mae eu drafft cyntaf o'r arolwg wedi'i gwblhau a byddai unrhyw adborth pellach ar y mater hwn yn ddefnyddiol.

**Gweithred**- Carwyn Young i rannu'r arolwg gyda'r fforwm i roi adborth.

Y nod ar hyn o bryd yw cael digon o wybodaeth a chostau i'w cymryd i'r cabinet i gael penderfyniad ffurfiol ar leoliad dewisol y Ganolfan Les.

Nododd AH y bydd angen archwilio agosrwydd daearyddol y lleoliadau. Nododd AH fod ffosffad yn broblem mewn dŵr ffres ac yn y môr ac awgrymodd fod CY yn cysylltu â'r adran ecoleg am arweiniad gan CNC er mwyn edrych ar y rhain yn gynnar yn y broses ddatblygu.

Nododd LW gyhoeddiad diweddar Dŵr Cymru o £20 miliwn sydd bellach ar gael ar gyfer gwelliannau yn Aberteifi a gofynnodd i'r grwpiau ystyried cyfleoedd posibl i fanteisio ar gysylltiadau/unigolion a fydd yn arwain ar y gwaith hwn.

Bydd LW yn danfon copi o adroddiad “Resources for Change” i CY.

DRAFT

I ddod i ben nododd CY hefyd eu bod wedi agor y Ganolfan Lles yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Mehefin. Mae eu hagoriad swyddogol yn digwydd ddiwedd mis Hydref ac fe wnaethant gynnal eu digwyddiad cyntaf ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Mynychodd nifer dda o bobl ac roedd yn llwyddiannus iawn gyda phartneriaid hefyd yn defnyddio'r diwrnod i rwydweithio. Nododd CY taw Gweithdy Menopos yw'r digwyddiad nesaf a fydd yn cael ei gynnal ddiwedd mis Hydref.

**<u>11.10 Unrhyw Ddiweddariadau pellach gan Bartneriaid – Pawb</u>**

Bethan James (BJ), Porth Cymorth Cynnar -

- Mae sesiynau galw heibio gyda chyswllt cymunedol bellach wedi'u sefydlu'n dda.
- Mae cysylltwyr cymunedol yn galw heibio bob trydydd dydd Gwener o'r mis ym Maes Mwldan 10-3 gyda Carys Owens. Cynhelir sesiynau galw heibio gyda'r cysylltwyr cymunedol ar ddydd Mawrth olaf pob mis yn Llyfrgell Aberteifi 10-12 gyda Carys Owens.
- Edrych ar gynnal sesiynau galw heibio yn yr ardaloedd cyfagos yn y flwyddyn newydd (Aberporth, Blaenporth, Llechryd, Pontcarreg) sy'n bwydo i mewn i ardal Aberteifi.
- Ar hyn o bryd yn y broses o recriwtio 2 x Swyddog Datblygu Gofalwyr (CDO). Mae un CDO eisoes yn ei swydd gyda'r bwriad o'i chael hi allan i'r cymunedau unwaith y mae hi wedi setlo.
- Rydym yn parhau i weithio ar gynyddu proffil cysylltwyr cymunedol yn ardal Aberteifi ac ar draws Ceredigion.
- Mae cysylltwyr cymunedol yn parhau i nodi bylchau yn yr ardal.

Hazel Lloyd Lubran, CAVO - Maent wedi bod yn cael trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Adeiladau Cymunedol, yn ymgymryd â gwaith gydag ymgynghorwyr sydd wedi'u comisiynu i ymchwilio i raglen a lansiwyd ychydig fisoedd yn ôl ynghylch cefnogi grwpiau angori cymunedol. Dim ond ychydig o ardaloedd sydd ganddyn nhw ar draws Cymru sy'n gymwys i gael cymorth ariannol ac mae ardal Aberteifi yn un ardal sydd wedi'i nodi. Os yw aelodau unigol yn dymuno derbyn rhagor o fanylion, cysylltwch â CAVO.

Rhiannon Ling, Cymdeithas Tai Gorllewin Cymru – Fe wnaethant drefnu digwyddiad haf llwyddiannus yn Pentop, mynychodd dros 50 o blant bob sesiwn. Roeddent yn cymryd rhan amlasiantaethol ac yn darparu bwyd cynnes ym mhob sesiwn. Hanner tymor mis Hydref maen nhw'n bwriadu cynnal mwy o sesiynau gyda theuluoedd wedi'u targedu y maen nhw am ddod draw.

**<u>11.11 Eitem sefydlog: A oes angen inni gysylltu â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ar unrhyw un o'r materion a godwyd?</u>**
Dywedodd Roxanne Treacy, Rhwydwaith Co-pro wrth y grŵp eu bod ar hyn o bryd yn gweithredu rhaglen hyfforddiant, Prosiect Dewi. Maent wedi sicrhau 5 mlynedd o gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau

| |
|---|
| Cyhoeddus ar weithredu cyd-gynhyrchu a chyfranogi, gan ganolbwyntio'n gychwynnol ar asesiadau llesiant. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn derbyn gwybodaeth ychwanegol neu i gymryd rhan yn yr hyfforddiant ddilyn y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth:<br>https://copronet.wales/what-we-do/project-dewi/<br><br>Cytunwyd hefyd y bydd cyfleoedd ar gyfer gwaith ymgysylltu a nodwyd yn y cyfarfod heddiw yn cael eu trafod ymhellach gyda phartneriaid. |
| **Cyfarfod nesaf: 18/01/2024** |

DRAFT